WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyhoeddwyd: Ebrill 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 249A2016



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd CyffredinolCymru gan Gwilym Bury, Fflur Jones, Siân Clark a Jeremy Evans o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Yr adroddiad hwn 4

Gwaith archwilio perfformiad 2015-16 5

Mae'r Cyngor, gyda threfniadau rheoli ariannol a chraffu cadarn, yn parhau i wneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd â blaenoriaeth 6

Argymhellion 6

Adroddiad manwl 8

Perfformiad
Er bod rhai o wasanaethau'r Cyngor yn parhau i wella, mae angen iddo fynd i'r afael â dirywiad amlwg mewn perfformiad ym maes addysg plant 9

Y defnydd o adnoddau
Er bod gan y Cyngor lefelau isel o gronfeydd wrth gefn, mae'n parhau i fod â threfniadau rheoli ariannol priodol heb unrhyw ddiffygion uniongyrchol 16

Llywodraethu
Mae trefniadau craffu'r Cyngor yn parhau i gefnogi proses gadarn o wneud penderfyniadau ac mae ganddo brosesau corfforaethol da ar gyfer ymateb i adroddiadau gan reoleiddwyr allanol 19

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 21

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 22

Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2015-16 24

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Bwrdeistref Conwy (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Gorffennaf 2015. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg. Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17.

3 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Gwaith archwilio perfformiad 2015-16

5 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y 'rheoleiddwyr perthnasol', isod.

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr |
| --- | --- |
| **Asesiad Cydnerthedd Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol. |
| **Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. |
| **Archwiliad o 'Asesiad o Berfformiad' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig y Cyngor, gan gynnwys profi a dilysu gwybodaeth am berfformiad. |
| **Rheoli Perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru: Meincnodi costau gwasanaethau cymdeithasol yn erbyn perfformiad** | Adolygiad ledled cynghorau'r Gogledd i ymchwilio i werth dangosyddion perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol cyfredol a'r cysylltiadau, os o gwbl, â chostau. |
| **Rheoli Perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygiad o'r Trefniadau i Godi Safonau mewn Ysgolion** | Adolygiad i weld a yw'r Cyngor mewn sefyllfa dda i ategu gwaith ei bartneriaid allanol wrth godi safonau addysg a dylanwadu ar waith GwE (Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion Gogledd Cymru) a, lle bo angen, ymyrryd yn ei ysgolion. Adrodd yn ystod Gwanwyn 2016. |
| **Trefniadau Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer byrddau craffu a gwella** | Adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer byrddau craffu a gwella a'u heffeithiolrwydd. |
| **AGGCC: Arolygiad o drefniadau diogelu plant sy'n derbyn gofal mewn gofal maeth** | Asesiad o effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn gofal maeth. |
| **AGGCC: Adolygiad o berfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol 2014-15** | Asesiad o berfformiad Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. |
| **Comisiynydd y Gymraeg: Adolygiad o Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor** | Asesiad o effeithiolrwydd y Cynllun wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. |
| **Gwaith dilynol Swyddfa Archwilio Cymru** | Asesu a oes gan y Cyngor brosesau corfforaethol priodol ar waith ar gyfer ymateb i adroddiadau, olrhain y modd y caiff argymhellion eu gweithredu a chyflwyno adroddiadau ar hyn i'r pwyllgor priodol. |
| **Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru** | • Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru<br>• Partneriaethau Diogelwch Cymunedol<br>• Cynhyrchu incwm a chodi tâl<br>• Trefniadau'r Cyngor ar gyfer ariannu gwasanaethau trydydd sector |

## Mae'r Cyngor, gyda threfniadau rheoli ariannol a chraffu cadarn, yn parhau i wneud cynnydd o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd â blaenoriaeth

6 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur a sicrhau gwelliant yn ystod 2016-17. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- er bod rhai o wasanaethau'r Cyngor yn parhau i wella, mae angen iddo fynd i'r afael â dirywiad amlwg mewn perfformiad ym maes addysg plant;
- er bod gan y Cyngor lefelau isel o gronfeydd wrth gefn, mae'n parhau i fod â threfniadau rheoli ariannol priodol heb unrhyw ddiffygion uniongyrchol; ac
- mae trefniadau craffu'r Cyngor yn parhau i gefnogi proses gadarn o wneud penderfyniadau ac mae ganddo brosesau corfforaethol da ar gyfer ymateb i adroddiadau gan reoleiddwyr allanol.

## Argymhellion

7 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

8 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, ceir materion â llai o flaenoriaeth, a elwir yn gynigion ar gyfer gwella, yn ein hadroddiadau eraill ond gellir cyfeirio atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant. Fodd bynnag, mae'n gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i'r Cyngor yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol. Ceir rhestr o argymhellion mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2015-16 yn Atodiad 3.

9 Yn ogystal, nododd AGGCC a Chomisiynydd y Gymraeg feysydd i'w gwella yn eu hadroddiadau arolygu a'r llythyrau a gyhoeddwyd ganddynt i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Gellir eu gweld yn www.cssiw.org.uk, www.estyn.llyw.cymru a www.comisiynyddygymraeg.cymru.

10 Ni chyflwynodd Estyn unrhyw adroddiadau arolygu i'r Cyngor yn ystod 2014-15 neu 2015-16.

# Adroddiad manwl



# Perfformiad

## Er bod rhai o wasanaethau'r Cyngor yn parhau i wella, mae angen iddo fynd i'r afael â dirywiad amlwg mewn perfformiad ym maes addysg plant

### Gwerthusiad Estyn o berfformiad ysgolion yng Nghonwy

11 Mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Nghonwy yn is na chyfartaledd Cymru. Ystyrir hyn wrth werthuso perfformiad y Cyngor.

12 Mae perfformiad yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen[1] wedi dirywio o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond mae perfformiad yn nangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 2 wedi gwella, er bod hynny ar gyfradd arafach na chyfartaledd Cymru. Mae perfformiad ar gyfer y ddau ddangosydd yn parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru ac islaw'r hyn a geir mewn awdurdodau tebyg.

13 Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd wedi gwella ar gyfradd gyflymach na chyfartaledd Cymru am y tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yn y mesur hwn wedi rhagori ar y meincnod ar gyfer perfformiad a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y tair blynedd diwethaf.

14 Nid yw Conwy wedi cyflawni meincnodau cyfnod allweddol 4 ar gyfer perfformiad a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015 o ran trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg na'r sgôr pwyntiau gyfartalog wedi'i chapio. Fodd bynnag, bodlonodd pob un o'r meincnodau disgwyliedig ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf.

15 Yng nghyfnod allweddol 4[2] mae perfformiad o ran trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg a'r sgôr pwyntiau gyfartalog wedi'i chapio, a chanran y disgyblion sy'n cyflawni pum TGAU neu fwy graddau A*-A, oll wedi dirywio yn 2015. Mae perfformiad yn y dangosyddion hyn islaw cyfartaledd Cymru

16 Yn 2015, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim islaw'r cyfartaledd ar gyfer disgyblion tebyg ledled Cymru mewn ysgolion cynradd. Yn y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim uwchlaw cyfartaledd Cymru ar gyfer disgyblion tebyg mewn ysgolion uwchradd.

17 Mae presenoldeb wedi gwella mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar gyfradd debyg i gyfartaledd Cymru ac ar hyn o bryd mae'n cyfateb yn fras i gyfartaledd Cymru yn y ddau sector.

1 Mae **dangosydd y Cyfnod Sylfaen** yn cyfeirio at ganran y disgyblion sy'n cyflawni'r perfformiad disgwyliedig (canlyniad lefel 5) mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen; llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf; datblygiad mathemategol; a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Mae **dangosydd pynciau craidd** yn cyfeirio at ganran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae hyn yn cyfateb i lefel 4 neu uwch yng nghyfnod allweddol 2 a lefel 5 neu uwch yng nghyfnod allweddol 3.

Mae dangosydd lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg yn cynrychioli cyfanswm y dysgu sy'n cyfateb i bum TGAU gradd A* i C gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg.

2 Lle mae'r testun yn cyfeirio at 'brif ddangosyddion', yng nghyfnod allweddol 4 byddai hyn yn cynnwys dangosydd lefel 1 (cyfanswm y dysgu sy'n cyfateb i bum TGAU gradd A* i G), dangosydd lefel 2 (cyfanswm y dysgu sy'n cyfateb i bum TGAU gradd A* i C), a chanran y disgyblion sy'n cyflawni pum TGAU gradd A* i A, yn ogystal â dangosydd pynciau craidd a dangosydd lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg. Y 'prif ddangosyddion' cyn cyfnod allweddol 4 yw dangosydd y Cyfnod Sylfaen a dangosyddion pynciau craidd ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 3. Mae'r dangosydd perfformiad ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 3 y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar asesiad athro. Mae'r dangosyddion perfformiad ar gyfer cyfnod allweddol 4 yn seiliedig ar gymwysterau a ddilyswyd yn allanol fel TGAU.

## Mae gofal cymdeithasol oedolion ar y cyfan yn parhau i fod yn gryf ond o ran gwasanaethau plant er y bu gwelliannau mewn rhai meysydd, megis amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant, ceir diffyg cynnydd mewn meysydd eraill

18 Cyhoeddodd AGGCC ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer Conwy yn 2014/2015 ym mis Hydref 2015 ac mae ar gael ar ei gwefan.

19 Ar ôl rhaglen drawsnewid a pharhaus uchelgeisiol a ddechreuodd yn 2013-14, mae adran gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor wedi gwneud newidiadau mawr i'w strwythur, gan gynnwys ailgysoni timau i baratoi ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), yn ogystal â gwneud arbedion sylweddol i gyflawni cyllideb y Cyngor. Gwnaed rhywfaint o gynnydd mewn perthynas â'r meysydd a nodwyd yn adroddiad gwerthuso perfformiad y llynedd, ond bu diffyg cynnydd mewn rhai meysydd allweddol. Mae adran Lles Cymunedol newydd y gwasanaeth wedi cymryd amser i ddatblygu'n llawn yn enwedig mewn perthynas â chomisiynu, gan arwain at gynnydd cyfyngedig ar gyfer y ddwy strategaeth gomisiynu a'r cydberthnasau â'r trydydd sector. Yn gyffredinol, mae'r rhaglen drawsnewid gynhwysfawr wedi arafu rhywfaint o'r datblygiad strategol; dim ond newydd gael eu rhoi ar waith y mae rhai o'r cynlluniau a wnaed y llynedd a bydd effaith newidiadau yn gliriach y flwyddyn nesaf.

20 Canfu AGGCC dystiolaeth o gynnydd mewn perthynas â gwasanaethau i bobl hŷn ac i oedolion ag anableddau dysgu sydd ag anghenion cymhleth, yn enwedig ynghylch llety, ond hefyd mewn gwaith integredig gyda phartneriaid iechyd sy'n galluogi pobl i aros gartref.

21 Datblygiad cadarnhaol ym maes gwasanaethau oedolion yw mwy o ffocws ar wasanaethau cymunedol, ailalluogi a hyrwyddo annibyniaeth. Mae'r Un Pwynt Mynediad a chanolfannau lleol amlddisgyblaethol wedi helpu i sicrhau ymateb cyflymach i ddiwallu anghenion. Cydnabu'r Cyngor fod y proffil poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghonwy yn golygu bod angen datblygu ei wasanaethau dementia ond prin fu'r cynnydd yn y maes hwn dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae gan Wasanaethau Cymdeithasol Conwy rywfaint o ddarpariaeth fewnol ar gyfer gwasanaethau i bobl â dementia drwy ei dîm ailalluogi, ond bu hyn yn gyfyngedig oherwydd capasiti prin. Mae cynlluniau ar waith i ddileu'r ddarpariaeth fewnol hon yn ôl yn raddol a chomisiynu gwasanaethau o'r sector annibynnol. Mae comisiynu gyda'r sector annibynnol eisoes wedi creu gwasanaeth yn ardal wledig Llanrwst sy'n rhoi seibiant i ofalwyr drwy gynnig gwasanaeth dydd i tua 60 o bobl, ond mae hyn yn gyfyngedig yn ddaearyddol ac mae angen ei ehangu.

22 Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth o gynnydd wrth ddatblygu gwasanaethau cymunedol i bobl â dementia, er y cydnabyddir proffil poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghonwy. Mae anamlder ac ansawdd adolygiadau, yn enwedig o bobl mewn cartrefi gofal, yn parhau i fod yn broblem a dim ond yn rhannol y bydd y cynlluniau cyfredol sydd ar waith i fynd i'r afael â hyn yn datrys y broblem. Prin fu'r cynnydd a wnaed yn ystod 2014-15 i sicrhau adolygiadau trefniadau gofal mwy amserol a/neu gynhwysfawr ac mae hyn yn parhau i fod yn faes sydd angen ei wella. Gall fframwaith asesu byrrach a ddatblygwyd yn ddiweddar gynyddu nifer yr adolygiadau a gwblheir yn y dyfodol, ond nid yw hyn yn datrys y broblem o ran ansawdd.

23 Cydnabyddir mai un bwlch yn y gwasanaethau gofal dementia yw'r cymorth seibiant i ofalwyr a ddarperir, yn enwedig lle mae angen gofal nyrsio ar gyfer y cymorth hwn, ac mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i gydweithwyr iechyd i ddatrys y broblem. Mae'r Cyngor yn dibynnu'n helaeth ar drefniadau gofalu anffurfiol a'i gyfleuster gofal preswyl ei hun i ddiwallu anghenion pobl â dementia. Mae partneriaeth dementia Conwy (rhwng iechyd, y trydydd sector a gwasanaethau cymdeithasol) wedi mapio'r daith dementia gan ystyried y gwasanaethau y mae pob sefydliad yn eu cynnig a nodi'r bylchau. Mae'r cyhoedd wedi bod yn rhan o'r broses hon. Mae angen i'r Cyngor yn awr gwblhau ei ddatganiad sefyllfa drafft o'r farchnad a'i strategaeth gomisiynu i gynnwys camau gweithredu, gydag amserlenni, fel bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo.

24 Nodwyd sawl risg i wasanaeth ym mhob agwedd ar y gweithredu a thynnwyd sylw at y rhain yng nghyfarfod cofrestr risg gorfforaethol y Cyngor. Roedd y rhain yn cynnwys gormod o bwyslais ar y model meddygol o ofal a dim digon o ffocws ar yr agweddau cymdeithasol ar sefyllfa pobl. Cydnabuwyd bod angen cymryd cam diwylliannol tuag at fodel gofal cymdeithasol ac mae arwyddion cynnar o welliant yn ôl y Cyngor. Mae absenoldeb oherwydd salwch yn y gwasanaeth hefyd yn broblem. Mae meysydd eraill y nodwyd y bod angen eu gwella yn canolbwyntio ar y rhyngwyneb rhwng staff gofal cymdeithasol a staff y GIG.

25 Mae angen gwella ymhellach wrth ddadansoddi gweithgarwch comisiynu a datblygu strategaeth gomisiynu. Mae systemau ar waith i gofnodi gweithgarwch comisiynu lleol ond nid oes datganiad sefyllfa clir o'r farchnad ar waith.

26 Mae wedi bod yn gyfnod o newid cyson ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a dim ond yn ddiweddar y mae swyddi allweddol yn y Bwrdd wedi cael eu llenwi. Mae'r Cyngor yn parhau i geisio meithrin cydberthnasau â gwneuthurwyr penderfyniadau. Yn weithredol, mae tystiolaeth o waith cydweithredol effeithiol sy'n sicrhau canlyniadau da i bobl. Un datblygiad o'r fath yw Bod Alaw ym Mae Colwyn a fydd yn helpu saith unigolyn i fyw yn annibynnol yn y gymuned o fis Tachwedd 2016, a bwriedir datblygu dau gyfleuster tebyg arall y bydd y naill a'r llall yn cynnig llety i tua chwech o bobl. Mae'r Cyngor wrthi'n ystyried y potensial i ddatblygu adeiladau y mae'r sir yn berchen arnynt eisoes ond sy'n wag, at ddibenion tebyg, gan wneud defnydd llawn o'r adnoddau sydd ar gael. Enghraifft yw hon o waith partneriaeth cryf rhwng y Cyngor, y bwrdd iechyd a'r cymdeithasau tai lleol a fydd yn galluogi pobl ag anableddau dysgu i aros mewn llety yn eu hardal leol.

27 Ym maes gwasanaethau plant, bu gwelliannau mewn rhai o'r meysydd a nodwyd yn 2013-14, fel amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant, ond diffyg cynnydd mewn eraill ac roedd sawl maes arall o berfformiad wedi dirywio'n sylweddol. Mae ymyrraeth fwy amserol gan dîm Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed i bobl ifanc yn parhau i fod yn faes sydd angen ei wella ac yn un y mae'r Cyngor yn ei fonitro. Mae mwy o ffocws ar ganlyniadau i blant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod yn faes sydd angen ei wella ymhellach.

28 Mae perfformiad y Cyngor mewn perthynas â gwasanaethau plant wedi gwaethygu mewn rhai meysydd ac ni fu unrhyw gynnydd yn y galw i egluro hyn. Mae amseroldeb asesiadau craidd wedi dirywio'n sylweddol: er i bron 90 y cant gael eu cwblhau o fewn yr amserlen o 35 diwrnod y llynedd, gwaethygodd perfformiad yn ystod 2014-15 i 74 y cant ar ddiwedd y flwyddyn. Mae amseroldeb asesiadau cychwynnol hefyd wedi gostwng o 82 y cant yn cael eu cynnal o fewn saith diwrnod gwaith, i 76 y cant yn 2014-15. Bu cynnydd hefyd yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant o 80 yn 2014 i 98. Mae'r Cyngor yn ymchwilio i resymau dros y gwahaniaeth mewn perfformiad eleni ac mae hwn yn faes y bydd AGGCC yn ymchwilio iddo ymhellach. Arweiniodd cynllun gwella'r Cyngor at gynnydd cadarnhaol yng nghanran y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhaliwyd o fewn 15 diwrnod gwaith i'r drafodaeth ar strategaeth o 78 y cant yn 2013-14 i 89.6 y cant yn 2014-15, yn agos at gyfartaledd Cymru, ac mae'n galonogol fod gan y Cyngor gynllun gweithredu ar waith i wella hyn ymhellach. Mae perfformiad o ran amseroldeb cynlluniau adolygiadau plant mewn angen yn parhau i wella o flwyddyn i flwyddyn.

29 Yn fwy cadarnhaol canfu AGGCC fod bellach dadansoddiad anghenion o blant a fydd yn derbyn gofal yn y dyfodol a systemau ar waith i rannu gwybodaeth a chynllunio'n strategol. Gwellodd amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant o 78 y cant yn 2013-14 i 89 y cant yn 2014-15. Mae'n gadarnhaol nodi bod y Cyngor wedi parhau i ddatblygu'r grŵp Cyfeillion sefydledig sy'n helpu plant sy'n derbyn gofal. Mae cysylltiadau â gwasanaethau tai i wella canlyniadau i'r rhai sy'n gadael gofal wedi cael eu hatgyfnerthu ond mae'n rhy gynnar eto i werthuso effaith hyn. Ceir tystiolaeth bod teuluoedd yn cael eu cefnogi i gael mynediad at amrywiaeth fwy o wasanaethau cymunedol cyffredinol. Bu galw cynyddol am wasanaethau a ddarperir gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Ers mis Mawrth 2013, bu galw cynyddol gan y tîm o amgylch y teulu am waith ataliol, ar ôl iddo dderbyn 644 o atgyfeiriadau. Mae cyfnodau ail-alw o dri mis y mae'r tîm wedi ymdrin â nhw yn dynodi lefel uchel o lwyddiant, a dim ond tri y cant aeth yn eu blaenau i fod angen gwasanaeth statudol.

30 Yn ystod 2015-16, cynhaliodd AGGCC adolygiad thematig cenedlaethol o waith comisiynu a chynhaliodd adolygiadau hefyd o wasanaethau a reoleiddir a gaiff eu rhedeg gan y Cyngor a chan weithredwyr annibynnol. Ceir manylion am y rhain mewn adroddiadau cyhoeddedig ac maent ar gael ar wefan AGGCC.

31 Fel rhan o waith Cynaliadwyedd Gwasanaethau Cymdeithasol Swyddfa Archwilio Cymru yn y chwe chyngor yn y Gogledd, lluniwyd dogfen i'r Cyngor a oedd yn cyflwyno'r canlynol:

- y galw yn y dyfodol am wasanaethau cymdeithasol yng Nghonwy drwy feincnodi amcanestyniadau o'r boblogaeth ar gyfer plant a phobl hŷn; a
- chyfres o ddadansoddiadau ar ffurf graff a oedd yn cyfuno data ariannol a data perfformiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghonwy dros sawl blwyddyn ac a oedd hefyd yn gosod y Cyngor yng nghyd-destun y 21 cyngor arall yng Nghymru.

32 Nid oedd unrhyw adroddiadau argymhellion na chasgliadau o’r gwaith hwn gan ein bod wedi rhoi pecyn data i bob cyngor a oedd yn dangos y wybodaeth o safbwynt gwerth am arian ac wedi hwyluso gweithdy ar gyfer ardal gyfan y Gogledd i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ac uwch reolwyr allweddol eraill.

## Mae’r Cyngor yn parhau i gydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009

33 Mae’r Cyngor, fel mewn blynyddoedd blaenorol, wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur a daeth **Tystysgrif Asesiad Gwella** yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Hydref 2015 i’r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur. Yn benodol:

- Roedd y Cyngor wedi cyhoeddi asesiad o’i berfformiad yn ystod 2014-15 yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014-15 (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2015. Roedd yr Adroddiad yn gwerthuso llwyddiant y Cyngor o ran cyflawni ei amcanion gwella ac yn mynegi ei farn yn glir.
- Roedd yr Adroddiad yn cynnwys adran fer i ddinasyddion a oedd am roi adborth neu wneud sylwadau ar yr Adroddiad.
- Roedd yr Adroddiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2014-15) ac yn nodi sut roedd y Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur.
- Roedd yr Adroddiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau fel y’u mesurwyd gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol.
- Roedd yr Adroddiad yn cynnwys adran fer ar y ffyrdd yr oedd y Cyngor wedi ceisio cydweithredu.

34 Yn y gorffennol, rydym wedi nodi bod y Cyngor o’r farn bod gwybodaeth am berfformiad yn rhan annatod o reoli perfformiad yn effeithiol a darparu gwasanaethau. Mae hyn yn wir o hyd. Mae wedi datblygu ffyrdd o bennu targedau a ategir yn dda gan wybodaeth reoli. Mae’r Cyngor wedi datblygu set gynhwysfawr o ddogfennau a chanllawiau ategol sy’n helpu i roi sicrwydd bod ei drefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol. Mae’r gwaith a gynhyrchwyd gan y tîm polisi canolog wedi cael ei atgyfnerthu ymhellach yn ystod 2015 drwy gyflwyno System Rheoli Perfformiad newydd ac mae ansawdd cyffredinol y papurau perfformiad a gyflwynir i’r pwyllgor craffu a’r Cabinet wedi gwella.

35 Mae’n ofynnol i’r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy’n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus o ran y ffordd y mae’n cyflawni ei swyddogaethau. Daeth Tystysgrif Cynllun Gwella yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Mai 2015 i’r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur.

## Mae safonau perfformiad y Cyngor ei hun yn parhau i roi darlun cyffredinol o wasanaethau sy'n gwella ond gwaethygodd perfformiad o ran addysg fel y'i mesurir gan ddangosyddion cenedlaethol ac mae islaw cyfartaledd Cymru

36 Dirywiodd perfformiad dangosydd cenedlaethol y Cyngor yn 2014-15, er ei fod yn ddigonol o hyd. Bellach, mae gan y Cyngor 12 yn hytrach na 15 o'r 25 o ddangosyddion perfformiad statudol yn chwarter uchaf perfformiad cynghorau yng Nghymru. Cynyddodd nifer y mesurau statudol yn y chwarter gwaelod hefyd, o bedwar i wyth. Mae'r Cyngor yn gweithio i wella perfformiad ac mae cynlluniau gweithredu ar waith.

37 Yng nghyfnod allweddol 4, gwnaeth perfformiad disgyblion, o ran trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg a'r sgôr pwyntiau gyfartalog wedi'i chapio, a chanran y disgyblion sy'n cyflawni pum TGAU neu fwy graddau A*-A, oll ddirywio yn 2015. Mae perfformiad yn y dangosyddion hyn islaw cyfartaledd Cymru.

38 Fodd bynnag, parhaodd y Cyngor i gyflawni gwelliannau pellach ar draws ei holl feysydd gwasanaeth er mwyn helpu i gyflawni ei amcanion corfforaethol. Mae Cynllun Corfforaethol Conwy yn seiliedig ar yr wyth Canlyniad ar gyfer Dinasyddion i Gonwy sy'n rhan o'r Cynllun Cymunedol Integredig amlasiantaethol, 'Un Conwy 2012-2025'. Mae'r Cyngor wedi nodi wyth canlyniad ar gyfer dinasyddion sy'n nodi'r cyfleoedd y mae'r Cyngor am i'w ddinasyddion eu cael, fel 'Mae pobl yng Nghonwy yn iach ac annibynnol'; ac 'Mae pobl yng Nghonwy yn hyddysg, yn cael eu cynnwys ac yn cael eu clywed'. Mae'r amcanion gwella hyn yn berthnasol, yn gyflawnadwy ac yn cael eu hadolygu bob blwyddyn drwy Gynllun Corfforaethol 2012-17. Adroddir ar gynnydd bob blwyddyn drwy Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar Berfformiad. Yn 2014-15, ar draws yr wyth canlyniad ar gyfer dinasyddion, dim ond tri mesur perfformiad oedd yn methu â chyflawni targedau blynyddol y Cyngor yn ôl dyfarniad y Cyngor.

39 Un ohonynt yn benodol yw lansio Partneriaeth Atebion Tai Conwy fel rhan o brosiect SARTH (Un Llwybr Mynediad at Dai). Mae'r prosiect wedi llwyddo i fynd i'r afael â phryder cyson ynghylch ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i bobl yng Nghonwy sydd angen help i gael gafael ar dai fforddiadwy yn y sector preifat a thai cymdeithasol. Mae'r bartneriaeth â chymdeithasau tai lleol, landlordiaid preifat, a chynghorau cyfagos yn enghraifft ragorol o gydweithredu llwyddiannus.

## Gwerthusiad Comisiynydd y Gymraeg o berfformiad Conwy

40 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

41 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor arnynt. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.

42 Gwnaeth Comisiynydd y Gymraeg gynnwys meysydd i'w gwella yn eu hadroddiadau arolygu a'r llythyrau a gyhoeddwyd ganddynt i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain ar gael ar eu gwefan.

# Y defnydd o adnoddau

## Er bod gan y Cyngor lefelau isel o gronfeydd wrth gefn, mae'n parhau i gael trefniadau rheoli ariannol da heb unrhyw ddiffygion uniongyrchol

### Archwiliad o gyfrifon y Cyngor

43 Ym mis Tachwedd 2015, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 2 o'r adroddiad hwn.

### Yn gyffredinol, mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor yn y dyfodol i gyflawni arbedion yn addas at y diben ac yn cael eu rheoli'n effeithiol, ond nid yw defnydd y Cyngor o gronfeydd wrth gefn i fantoli cyllidebau yn gynaliadwy

44 Sicrheir cydnerthedd ariannol pan fydd gan awdurdod systemau a phrosesau cadarn i reoli ei risgiau a'i gyfleoedd ariannol yn effeithiol a sicrhau sefyllfa ariannol sefydlog.

45 Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio'n ariannol a gweledigaeth a nodau clir a adlewyrchir mewn cyfres gydlynol o amcanion gwella. Mae pennu cyllideb yn y Cyngor yn cefnogi'r broses o gyflawni ei weledigaethau, nodau ac amcanion gwella corfforaethol, ac mae ei flaenoriaethau yn dylanwadu ar gynlluniau'r gyllideb flynyddol a chynlluniau arbedion, er y gellid gwella hyn drwy gysylltu'r cynlluniau hyn yn fwy penodol drwy'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Hefyd, nid yw'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys Mesurau Perfformiad y Cyngor ar hyn o bryd.

46 Mae'r Cyngor yn defnyddio data cadarn i gefnogi ei dybiaethau, er bod diffyg arwyddion clir gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn parhau i greu heriau o ran cynlluniau ariannol. Mae Cynllun Arbedion 2015-16 yn un sy'n gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, a synhwyrol. Mae disgrifiad clir o ble y caiff arbedion eu gwneud a chytunir ar symiau penodol yn erbyn pob eitem fel rhan o'r gyllideb flynyddol. Datblygwyd cynlluniau arbedion effeithlonrwydd ar draws pob adran ac maent yn ystyried arbedion disgwyliedig o £1.1 miliwn drwy raglen drawsnewid y Cyngor ar gyfer 2015-16.

47 Nododd y Cyngor yn gywir ddiffyg o £16 miliwn yng nghyllideb 2015-16, er bod ei dybiaethau cynnar ar gyfer Cyllid Allanol Cyfun yn uwch o lawer na'r swm a gadarnhawyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2014, a roddodd bwysau mawr ar y Cyngor i nodi arbedion pellach yn gyflym. O ganlyniad i'r oedi cyn cyhoeddi adolygiad o wariant y DU yn dilyn yr etholiad cyffredinol roedd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Cyllid Allanol Cyfun hyd yn oed yn hwyrach yn ystod 2015. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud iawn am y diffyg yn 2015-16, yn ogystal â'i dybiaethau cynnar ar gyfer y diffyg yn 2016-17 a 2017-18 drwy arbedion cyllidebol, cynnydd o bump y cant yn y Dreth Gyngor a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a balansau.

48 Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol diwethaf nodwyd bod y Cyngor yn cydnabod nad oedd ei ddefnydd o arian anghylchol i fantoli'r gyllideb yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Nodwyd hefyd mai lefel cronfeydd wrth gefn y Cyngor oedd un o'r rhai isaf yng Nghymru ac y byddai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi yn asesiad eleni i'w gynlluniau ariannol o ran cronfeydd wrth gefn. Mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio ei gronfeydd wrth gefn i fantoli ei gyllideb, ac yn bwriadu gwneud hynny eto yn 2016-17 ond mae'n bwriadu gwneud iawn am ei ddiffyg yn 2017-18 heb ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, drwy arbedion pellach a thrwy barhau i gynyddu'r Dreth Gyngor yn uwch na chyfradd chwyddiant.

49 Mewn Adroddiadau Gwella Blynyddol blaenorol nodwyd mai cronfeydd wrth gefn ysgolion yn y Sir oedd un o'r uchaf yng Nghymru. Mae hyn yn wir o hyd ac er i gronfeydd wrth gefn ostwng ychydig rhwng 2012-13 a 2013-14, maent wedi cynyddu eto yn ystod 2014-15. Ym mis Mawrth 2015, y cronfeydd wrth gefn fesul disgybl yn Sir Conwy oedd £243, y trydydd uchaf yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn cydnabod hyn ac mae ei adran Ysgolion a Gwasanaethau Addysg yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu cynllunio'n well a'u rheoli'n ddarbodus.

## Mae gan yr Awdurdod reolaethau ariannol boddhaol, mae wedi gwneud cynnydd da yn erbyn meysydd eraill y nodwyd yn flaenorol eu bod yn wan gan reoleiddwyr allanol ac mae'r rhai sy'n gyfrifol am reoli perfformiad ariannol yn cael eu dwyn i gyfrif

50 Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion a nodwyd o fewn y flwyddyn yn erbyn ei gamau gweithredu arfaethedig. Llwyddodd y Cyngor i nodi amrywiaeth o arbedion cylchol ac anghylchol yr oedd angen eu gwneud i wneud iawn am y diffyg cyllidebol rhwng 2012-13 a 2014-15, cynllunio ar eu cyfer a'u cyflawni, a chyflawnodd warged ychwanegol o £307,000 yn ystod 2014-15.

51 Mae Rheoliadau Ariannol y Cyngor yn cynnwys adran ar gyllidebau sy'n ymdrin â chynllunio ariannol a chyllidebu; rheolaeth gyllidebol; trosglwyddo a chyllidebau atodol eithriadol. Penaethiaid Gwasanaethau sy'n gyfrifol am reoli incwm a gwariant o fewn eu maes a monitro perfformiad, gan ystyried gwybodaeth ariannol a ddarperir gan y Cyfarwyddwr Strategol - Cyllid ac Effeithlonrwydd. Dylai pob Pennaeth Gwasanaeth hysbysu'r Cyfarwyddwr Strategol - Cyllid ac Effeithlonrwydd ac wedyn y Cabinet am amrywiadau o fewn eu meysydd eu hunain. Dylent hefyd gymryd unrhyw gamau sydd eu hangen i osgoi gwario mwy na'u cyllideb a thynnu sylw'r Cyfarwyddwr Strategol - Cyllid ac Effeithlonrwydd at unrhyw broblemau.

52 Yn ddiweddar, mae’r Cyngor wedi gwella ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ond erys rhai gwendidau fel absenoldeb cysylltiadau cynhwysfawr â chynlluniau gwasanaeth a Mesurau Perfformiad y Cyngor. Yn ddiweddar, mae’r Cyngor wedi cyflwyno polisi ffurfiol ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn, sy’n atgyfnerthu ymhellach yr adolygiad parhaus gan gynghorwyr a swyddogion o gronfeydd wrth gefn a balansau.

53 Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor bolisi ar gyfer yr awdurdod cyfan ar gynhyrchu incwm a chodi tâl. Hefyd, er bod y rhan fwyaf o wasanaethau unigol yn rheoli ac yn adolygu polisïau sy’n ymwneud â thaliadau penodol o fewn eu hadrannau, ni chaiff rhai polisïau eu hadolygu’n rheolaidd ac nid oes gan leiafrif o’r gwasanaethau y mae’r Cyngor yn codi tâl amdanynt unrhyw bolisïau cynhyrchu incwm penodol. Yn ein hadroddiad yn 2015 **Helpu Pobl Hŷn i Fyw’n Annibynnol: A yw Cynghorau’n Gwneud Digon?** gwnaethom dynnu sylw at y ffaith, lle nad oes polisïau cynhyrchu incwm ar gael, fod mwy o risg i gynghorau newid gwasanaethau heb asesu’n llawn yr effaith bosibl ar, er enghraifft, bobl hŷn, sy’n tanseilio ei allu i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

54 Mae trefniadau monitro cyllidebau’r Cyngor yn cael eu rheoli’n effeithiol gan dîm Cyllid sy’n gymwys yn broffesiynol ac yn brofiadol. Mae gan y Cyngor nifer o bolisïau clir a chydlynus yn ymwneud â rheolaeth ariannol. Mae polisi rheoli cyllidebau’r Cyngor yn briodol ac wedi’i ategu gan gyfres gynhwysfawr o bolisïau a phrosesau ar gyfer cynghorwyr, swyddogion a deiliaid cyllidebau. Mae gan y Cyngor reolaethau ariannol boddhaol ac mae wedi gwneud cynnydd da yn erbyn meysydd y nodwyd yn flaenorol eu bod yn feysydd i’w gwella gan reoleiddwyr allanol.

55 Mae’r trefniadau llywodraethu ariannol yn y Cyngor yn effeithiol a chadarn. Mae dull gweithredu ‘Tîm Conwy’ yn hyrwyddo ymddiriedaeth a rhannu gwybodaeth mewn modd adeiladol rhwng y rhai sy’n ymwneud â rheoli cyllidebau. Enghraifft o’r dull hwn ar waith yn ymarferol yw Grŵp Ymgynghori ynghylch Cyllidebau’r Cyngor, sef fforwm lle y caiff cynghorwyr o bob plaid eu cynnwys i nodi arbedion a chraffu ar wariant. Mae’r fforwm hwn wedi nodi nifer o arbedion ac yn hyrwyddo cysylltiadau da ar draws y Cyngor o ran pennu cyllidebau a’u rheoli.

# Llywodraethu

## Mae trefniadau craffu'r Cyngor yn parhau i gefnogi proses gadarn o wneud penderfyniadau ac mae ganddo brosesau corfforaethol da ar gyfer ymateb i adroddiadau gan reoleiddwyr allanol

### Mae trefniadau craffu'r Cyngor yn parhau i ategu proses gadarn o wneud penderfyniadau

56 Yn ystod 2015-16, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer byrddau craffu a gwella gyda ffocws ar fonitro effaith y rhaglen drawsnewid. Yn ein Hasesiad Corfforaethol ar gyfer 2015 nodwyd bod y cydberthnasau rhwng cynghorwyr a swyddogion yn parhau i fod yn adeiladol a'u bod wedi'u hategu gan hyfforddiant, canllawiau a disgrifiadau swydd priodol. Mae cynghorwyr yn ymddwyn yn briodol ac yn gyffredinol yn ceisio bod yn adeiladol yng nghyfarfodydd y pwyllgorau, hyd yn oed pan fyddant yn anghytuno â'i gilydd. Nod y Cyngor yw darparu hyfforddiant a datblygiad yn seiliedig ar anghenion ac mae cynghorwyr yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch yr hyfforddiant a gynigir.

57 Mae Pwyllgor y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu yn cyfarfod yn aml ac yn cysoni eu rhaglenni gwaith yn agos ac effeithiol. Mae gan bob pwyllgor flaenraglen waith sydd wedi'i diffinio'n dda ac mae'n adolygu hyn ym mhob cyfarfod. Rheolir cynnwys agendâu yn ofalus fel bod penderfyniadau sydd angen eu gwneud er mwyn datblygu prosiectau yn cael eu gwneud yn brydlon.

58 Mae ansawdd y papurau a chyflwynir i bwyllgorau craffu yn dda. Bydd grŵp o uwch swyddogion yn adolygu papurau y tybir eu bod yn ddadleuol o bosibl neu o bwys ymhell cyn iddynt gael eu cynnwys yn y broses ddemocrataidd. At hynny, mae ymgysylltiad helaeth cynghorwyr drwy, er enghraifft, eu haelodaeth o weithdai cyllideb a'u hymwneud â hwy yn gyffredinol yn sicrhau bod yr argymhellion a geir mewn papurau pwyllgor yn debygol o ennyn cryn gefnogaeth. Mae hyn yn cyfrif i raddau helaeth am y ffaith bod pwyllgorau craffu yn gyffredinol yn derbyn yr argymhellion a nodir yn eu papurau pwyllgor. Fodd bynnag, arsylwyd enghreifftiau lle mae pwyllgorau craffu wedi addasu'r argymhellion a geir mewn papurau ac wedi herio'r staff sy'n cyflwyno'r papurau mewn modd cadarn a hyddysg.

59 Mae'r Cyngor wrthi'n adolygu a oes angen iddo barhau i weithredu Byrddau Gwella mwyach ochr yn ochr â'i broses graffu bresennol a'i drefniadau rheoli rhaglen sydd wedi'u hatgyfnerthu. Wrth archwilio gwaith y Bwrdd Gwella presennol nid oeddem yn gallu gweld unrhyw dystiolaeth ddiweddar lle mae'r bwrdd wedi gwneud gwahaniaeth i ansawdd y broses gwneud penderfyniadau a'r canlyniadau i bobl Conwy a byddem yn cytuno os yw'r Cyngor yn penderfynu rhoi'r gorau i weithredu'r Byrddau Gwella.

## Mae gan y Cyngor brosesau corfforaethol da ar gyfer ymateb i adroddiadau gan reoleiddwyr allanol

60 Mae gan y Cyngor brosesau corfforaethol da ar gyfer ymateb i adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, olrhain y broses o weithredu argymhellion ac adrodd ar hyn i gyfarfodydd y Cyngor. Yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2015, nodwyd bod Grŵp Gwella ac Archwilio (GGA) y Cyngor yn goruchwylio'r camau gweithredu sy'n deillio o adroddiadau rheoleiddio allanol, fel Adroddiadau Cenedlaethol, a chyflwynir adroddiad ar gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio bob chwarter. Caiff rhestr o argymhellion na weithredwyd arnynt eto gan reoleiddwyr allanol ei hadolygu bob chwarter gan y Pwyllgor Archwilio.

61 Gall y Cyngor gyflwyno tystiolaeth i gadarnhau bod camau gweithredu ar y trywydd iawn neu wedi'u cwblhau ar gyfer unrhyw argymhellion neu gynigion ar gyfer gwella gan gynnwys yr argymhellion ym mhum Adroddiad Cenedlaethol Llywodraeth Leol 2014-15 yr Archwilydd Cyffredinol a oedd wedi cael eu cyhoeddi cyn mis Mawrth 2015. Trafododd y Cyngor rai o'r adroddiadau unigol mewn pwyllgorau craffu ac yn y Pwyllgor Archwilio a lluniwyd adolygiad a chynllun gweithredu cynhwysfawr ar gyfer pob adroddiad.

62 Ers cyhoeddi'r Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf mae pum Adroddiad Cenedlaethol arall ar gyfer Llywodraeth Leol gydag argymhellion a all fod yn berthnasol i'r Cyngor wedi cael eu cyhoeddi. Mae pob un o'r adroddiadau wedi cael eu hystyried eisoes gan y Cyngor drwy ei weithdrefnau presennol ar gyfer archwilio adroddiadau gan reoleiddwyr allanol. Ceir rhestr o argymhellion mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2015-16 yn Atodiad 3.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Iwan Davies
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

Tachwedd 2015

Annwyl Iwan,

## Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2014-15

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau.

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2015, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 28 Medi 2015, a chyflwynir adroddiad manylach maes o law.

Gwnaethom ddwyn i sylw rheolwyr dri chamddatganiad a gywirwyd gan reolwyr. Roedd y rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- £1.1m o arian y dreth gyngor a gydnabuwyd ym mis Mawrth 2015 ond a oedd yn ymwneud â mis Ebrill 2015;
- incwm a gwariant ychwanegol y Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth o £684k a gydnabuwyd oherwydd gwall wrth wrthdroi taliadau mewnol a ailgodir; a
- gwallau hanesyddol a chyfredol wrth gyfrifo ar gyfer symudiadau ailbrisio PPE.

Gwnaeth ein gwaith archwilio hefyd nodi nifer fach o fân wallau cyflwyniadol a gwyriwyd yn fersiwn derfynol y datganiadau ariannol. Ni chafodd y newidiadau hyn effaith ar y sefyllfa ariannol sylfaenol a gofnodwyd.

Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau.

Cyflwynais fy marn ar yr archwiliad o'r cyfrifon ar 30 Medi 2015. Nid wyf mewn sefyllfa eto i ardystio'r broses o gau'r archwiliad ar gyfer 2014/15. Mae hyn am fod archwiliadau 2010/11, 2011/12, 2012/13 a 2013/14 yn parhau i fod ar agor oherwydd nifer o wrthwynebiadau nas datryswyd a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd. Derbyniwyd gwrthwynebiadau hefyd ar gyfer 2013/14 ac rydym ar hyn o bryd yn gwerthuso'r cwestiynau a godwyd i asesu a ydynt yn rhan o'n cylch gwaith i ymchwilio iddynt a sut i'w datrys. Lle rwyf wedi datrys gwrthwynebiadau yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi cyflwyno adroddiad ar hyn i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor.

Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015-16 na systemau ariannol allweddol.

Bydd adroddiad manylach ar fy ngwaith ardystio grantiau yn dilyn yn gynnar yn 2016 unwaith y bydd rhaglen gwaith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

**Ian Pennington, Cyfarwyddwr, KPMG LLP**
**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2015-16

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Ebrill 2015 | Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru | A1 | Dylai cynghorau sicrhau bod eu cynllun corfforaethol:<br>• wrth wraidd y broses o lywio cynlluniau gwasanaeth a strategaethau ategol eraill gan gynnwys y gweithlu, technoleg gwybodaeth a gwariant cyfalaf;<br>• yn cynnal blaenolwg tair i bum mlynedd o leiaf a'i fod yn unol â'r cynllun ariannol tymor canolig a strategaethau ategol eraill; a<br>• dylai nodi'n glir rôl ddymunol y cyngor mewn pum mlynedd - y model ar gyfer darparu gwasanaethau â blaenoriaeth a'r seilwaith a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau yn y dyfodol o fewn y cyllid sydd ar gael. |
| | | A2 | Dylai'r cynllun ariannol tymor canolig nodi'r prif risgiau ariannol a thybiaethau allweddol a dylai uwch swyddogion a chynghorwyr graffu arnynt a'u herio'n effeithiol cyn mabwysiadu'r cynllun. |
| | | A3 | Mae angen i gynghorau sicrhau bod diffygion ariannol yn cael eu rhagamcanu'n gywir a'u cysoni'n llawn â chynlluniau arbed manwl ar gyfer pob blwyddyn o oes y cynllun ariannol tymor canolig. |
| | | A4 | Dylai cynghorau adolygu digonolrwydd y trefniadau sicrwydd ariannol sy'n sail i gyflawni cynlluniau arbed blynyddol, gan gynnwys lefel y gwaith craffu a herio a gynigir gan gynghorwyr. |
| | | A5 | Dylai cynghorau sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd wrth gefn gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cronedig fel rhan o'u Cynllun Ariannol Tymor Canolig. |
| | | A6 | Dylai cynghorau ddatblygu polisïau cwbl gorfforaethol ar gynhyrchu incwm gyda'r nod o gynyddu ffrydiau refeniw a lleihau pwysau ariannol. |
| | | A7 | Dylai cynghorau:<br>• atgyfnerthu trefniadau pennu a monitro cyllidebau er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol; ac<br>• adolygu cwmpas ac effeithiolrwydd eu systemau a'u rheolaethau ariannol mewnol ac allanol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn rhoi rhybudd cynnar am wendidau mewn systemau allweddol. |
| | | A8 | Rhaid i gynghorau adolygu eu timau cyllid a sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau a gallu i fodloni gofynion yn y dyfodol. |
| | | A9 | Mae angen i swyddogion cynghorau sicrhau bod gan gynghorwyr y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni gwaith llywodraethu a herio effeithiol drwy ymestyn cyfleoedd hyfforddi a llunio gwybodaeth reoli o ansawdd uchel. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A1 | Egluro natur a gweithrediad consortia.<br>Nodwyd gennym fod ansicrwydd parhaus ynglŷn â rhai agweddau ar natur consortia rhanbarthol a'u cwmpas nawr ac yn y dyfodol (paragraffau 2.2 i 2.20). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• Dylai awdurdodau lleol egluro a yw gwasanaethau consortia yn cael eu darparu ar y cyd neu a ydynt yn wasanaethau a gomisiynwyd (mae gwasanaethau a ddarperir o dan drefniadau cydbwyllgor yn wasanaethau a ddarperir ar y cyd ac nid ydynt yn wasanaethau a gomisiynwyd. |
| | | A2 | Canolbwyntio ar ganlyniadau drwy waith cynllunio tymor canolig.<br>Nodwyd gennym fod ffocws ar gamau gweithredu byrdymor ac ansicrwydd ynglŷn â dyfodol consortia yn rhwystro'r gwaith o ddatblygu consortia rhanbarthol effeithiol (paragraffau 2.33 i 2.36; 3.16 i 3.17). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• Gan na chaiff unrhyw raglen bosibl i ad-drefnu awdurdodau lleol ei rhoi ar waith yn llawn tan 2020, dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol ddatblygu cynlluniau tair blynedd ar gyfer datblygu consortia rhanbarthol ymhellach, pennu eu cwmpas a'u cyllid, wedi'u cysylltu ag amcanion strategol priodol. |
| | | A3 | Datblygu cydberthnasau mwy cydweithredol ar gyfer y system gwella ysgolion.<br>Cyfrannodd llawer o bartneriaid gwella ysgolion at y gwaith o ddatblygu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ond nodwyd gennym nad oedd hyn wedi arwain at ddatblygu cydberthnasau digon cydweithredol (paragraffau 2.25 i 2.32). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• Dylai consortia rhanbarthol ddatblygu trefniadau gwell ar gyfer rhannu arfer a chefnogi effeithlonrwydd (er enghraifft, gallai un consortiwm arwain y gwaith o fynd i'r afael â mater neu gallai fod ganddo gyfrifoldeb gweithredol am ddatblygu polisi).<br>• Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gydnabod cyd-ddibyniaeth yr holl bartneriaid wrth gyflawni eu rolau gwella ysgolion a chytuno ar ddull o wneud y canlynol:<br>– rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau sy'n ymwneud â gwella ysgolion ac ymgynghori yn eu cylch;<br>– datblygu cydberthnasau cydweithredol sy'n seiliedig ar atebolrwydd a rennir; a<br>– chynnal adolygiadau system gyfan a chysoni'r ddealltwriaeth o gonsortia rhanbarthol a sefyllfa consortia rhanbarthol ym mhob un o strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | | Argymhelliad |
|---|---|---|---|
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A4 | Datblygu arweinwyr effeithiol a denu'r dalent orau.<br>Mae consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru oll wedi'i chael hi'n anodd recriwtio uwch arweinwyr ar gyfer addysg a nodwyd gennym nad oes fawr ddim wedi'i wneud i fynd i'r afael â hyn (paragraffau 2.37 i 2.40). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithredu i wneud rolau arwain ym maes addysg yn fwy deniadol er mwyn denu'r arweinwyr mwyaf talentog ar gyfer y system gwella ysgolion; a<br>• dylai awdurdodau lleol gydweithredu er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol uwch arweinwyr a sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad priodol ar waith ar gyfer uwch arweinwyr. |
| | | A5 | Gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli consortia rhanbarthol.<br>Er bod cynnydd yn parhau i gael ei wneud, nodwyd nad yw consortia rhanbarthol wedi datblygu trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol cwbl effeithiol eto (paragraffau 3.2 i 3.36). Felly, rydym yn argymell y dylai awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol wneud y canlynol:<br>• gwneud gwell defnydd o hunanwerthusiadau o'u perfformiad a'u trefniadau llywodraethu i ategu gwaith cynllunio busnes a'u hadolygiadau blynyddol o drefniadau llywodraethu er mwyn llywio eu datganiadau llywodraethu blynyddol;<br>• gwella prosesau gwella perfformiad gan gynnwys gwella prosesau cynllunio busnes, defnyddio mesurau perfformiad clir a mesuradwy ac asesu gwerth am arian;<br>• sicrhau bod rheoli risg strategol yn rhan annatod o'u trefniadau rheoli a chyflwyno adroddiadau rheolaidd ar lefel y cydbwyllgor neu'r bwrdd;<br>• datblygu eu trefniadau rheoli ariannol er mwyn sicrhau bod gweithgarwch cyllidebu, monitro ariannol ac adrodd yn cwmpasu'r holl incwm a gwariant perthnasol, gan gynnwys arian grant a gaiff ei wario drwy awdurdodau lleol;<br>• datblygu trefniadau craffu ar y cyd y consortia yn gyffredinol yn ogystal â gwaith craffu perfformiad a wneir gan awdurdodau unigol, a all gynnwys sefydlu cydbwyllgor craffu neu waith cydgysylltiedig gan bwyllgorau craffu awdurdodau lleol;<br>• sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau a threfniadau consortia yn agored ac yn dryloyw;<br>• adnabod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a mynd i'r afael ag ef; a phan fo gan staff fwy nag un cyflogwr, dylai consortia rhanbarthol sicrhau bod llinellau atebolrwydd yn glir a bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r rolau a gyflawnir; a<br>• datblygu strategaethau cyfathrebu cadarn ar gyfer ymgysylltu â phob rhanddeiliad allweddol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol mewn Cynghorau yng Nghymru | A1 | Gwella arweinyddiaeth gorfforol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu drwy wneud y canlynol:<br>• penodi uwch swyddog arweiniol sy'n atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc ac sydd â chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod diogelu arweiniol; a<br>• lledaenu gwybodaeth am y penodiadau hyn i bob aelod o staff a rhanddeiliad a'i diweddaru yn rheolaidd. |
| | | A2 | Sicrhau bod polisi cwbl gorfforaethol ar ddiogelu sy'n cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor er mwyn cynnig cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ym mhob rhan o'r Cyngor. |
| | | A3 | Atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer recriwtio staff a gwirfoddolwyr mewn modd diogel drwy wneud y canlynol:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chydymffurfiaeth â pholisïau recriwtio'n ddiogel yn cwmpasu'r holl wasanaethau sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>• creu system cydymffurfiaeth gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfiaeth o ran gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a<br>• gofyn am arferion recriwtio'n ddiogel ymhlith partneriaid yn y trydydd sector ac ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y Cyngor a ategir gan gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. |
| | | A4 | Sicrhau bod pob aelod perthnasol o staff a phob aelod a phartner perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu drwy wneud y canlynol:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod ei gwmpas yn cael ei ymestyn i gynnwys holl feysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor a'i fod yn cael ei gynnwys fel rhywbeth safonol mewn rhaglenni sefydlu;<br>• llunio system gwbl gorfforaethol i nodi, olrhain a monitro cydymffurfiaeth o ran cael hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r Cyngor ac ymhlith aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>• mynnu bod staff perthnasol, mewn sefydliadau partner sydd wedi'u comisiynu i weithio i'r Cyngor drwy ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, yn cael hyfforddiant diogelu. |
| | | A5 | Wrth ddiwygio'r canllawiau, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r hyn y mae'n ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol o ran rolau a chyfrifoldebau'r swyddog dynodedig o fewn gwasanaethau addysg a'r unigolyn a enwir ar lefel uwch reolwr sy'n gyfrifol am hyrwyddo diogelwch plant. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol mewn Cynghorau yng Nghymru | A6 | Gwella atebolrwydd am weithgarwch diogelu corfforaethol drwy gyflwyno adroddiadau rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd i'r pwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth am berfformiad ym mhob rhan o'r Cyngor sy'n cynnwys y canlynol:<br>• meincnodi a chymariaethau ag eraill;<br>• casgliadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad sy'n seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu a gwiriadau recriwtio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor. |
| | | A7 | Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i brofi systemau a chynnal adolygiadau o gydymffurfiaeth o ran arferion diogelu'r Cyngor. |
| | | A8 | Sicrhau y caiff y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu plant eu hystyried ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth wrth ddatblygu cynlluniau rheoli risg a chytuno arnynt ym mhob rhan o'r Cyngor. |
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A1 | Gwella trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol mewn perthynas â materion pobl hŷn drwy wneud y canlynol:<br>• penodi uwch swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am gydgysylltu ac arwain gwaith y Cyngor ar wasanaethau pobl hŷn.<br>• ailalinio gwaith cydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn er mwyn helpu i ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn;<br>• penodi aelod yn hyrwyddwr gwasanaethau pobl hŷn; a<br>• lledaenu gwybodaeth am y penodiadau hyn i bob aelod o staff a rhanddeiliad a'i diweddaru yn rheolaidd. |
| | | A2 | Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn drwy wneud y canlynol:<br>• sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n cwmpasu gwaith holl adrannau perthnasol y Cyngor a gwaith rhanddeiliaid allanol y tu allan i faes iechyd a gofal cymdeithasol; a<br>• gweithio gyda thrigolion a phartneriaid i ddatblygu cynlluniau ac wrth ddatblygu blaenoriaethau a chytuno arnynt. |
| | | A3 | Ymgysylltu'n well a phobl hŷn a gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei lledaenu iddynt drwy sicrhau bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth wedi'u cyflunio'n briodol a'u bod yn diwallu anghenion y rhai sy'n eu cael. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A4 | Sicrhau y caiff perfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol eu rheoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y rhai y tu allan i faes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; a<br>• nodi mesurau i farnu mewnbynnau, allbynnau ac effaith fel y gellir deall effaith toriadau cyllidebol a chefnogi gweithgarwch goruchwylio a chraffu. |
| | | A5 | Sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb drwy wneud y canlynol:<br>• nodi sut y bydd newidiadau i wasanaethau neu doriadau mewn cyllidebau yn effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig;<br>• mesur yr effaith bosibl a'r camau lliniaru a gymerir er mwyn lleihau'r effaith negyddol bosibl ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig;<br>• nodi nifer y bobl y gallai'r newidiadau arfaethedig neu'r polisi newydd effeithio arnynt drwy nodi'r effaith ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig; a<br>• sicrhau bod gweithgarwch ategol megis arolygon, grwpiau ffocws ac ymgyrchoedd gwybodaeth yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi defnyddwyr gwasanaethau i ddeall yr effaith a gaiff newidiadau arfaethedig arnynt yn glir. |
| | | A6 | Gwella'r ffordd y rheolir y Gronfa Gofal Canolraddol a sicrhau ei bod yn cael mwy o effaith drwy wneud y canlynol:<br>• pennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad ar ddechrau prosiectau fel y gellir barnu effaith y rhain dros amser;<br>• cytuno ar fformat a chwmpas adroddiadau monitro fel y gellir gwerthuso prosiectau a ariennir ar sail gyfatebol yn erbyn meini prawf y gronfa, er mwyn barnu pa rai sy'n cael yr effaith gadarnhaol fwyaf a faint o gynlluniau sydd wedi'u prif ffrydio i gyllid craidd; ac<br>• ymgysylltu'n well â phob partner er mwyn sicrhau y caiff cymaint o bartneriaid â phosibl eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau a rhaglenni yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A1 | Gwella gwaith cynllunio strategol ym maes gwasanaethau hamdden drwy wneud y canlynol:<br>• pennu gweledigaeth gytûn y Cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• canolbwyntio ar sefyllfa'r Cyngor o fewn darpariaeth chwaraeon a hamdden y gymuned ehangach yn yr ardal; ac<br>• ystyried y potensial ar gyfer darparu gwasanaethau ar sail ranbarthol. |
| | | A2 | Cynnal arfarniad o opsiynau er mwyn nodi'r model cyflawni mwyaf priodol yn seiliedig ar weledigaeth gytûn a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden sy'n ystyried y canlynol:<br>• argaeledd cyllid cyfalaf a chyllid refeniw yn ystod y tair i bum mlynedd nesaf;<br>• opsiynau i wella ffocws masnachol gwasanaethau hamdden;<br>• cyfleoedd i wella prosesau cynhyrchu incwm a lleihau 'cymhorthdal' y Cyngor;<br>• dadansoddi cost a budd o'r holl opsiynau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau hamdden yn y dyfodol;<br>• cyfraniad gwasanaethau hamdden at rôl ehangach y Cyngor o ran iechyd y cyhoedd;<br>• ymgysylltu'n well â'r cyhoedd er mwyn sicrhau y caiff barn ac anghenion defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr eu nodi'n glir;<br>• effaith opsiynau gwahanol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; a<br>• chynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. |
| | | A3 | Sicrhau y caiff perfformiad gwasanaethau hamdden eu rheoli'n effeithiol drwy nodi cyfres o fesurau i alluogi swyddogion, aelodau a dinasyddion i farnu mewnbynnau, allbynnau ac effaith. Dylai hyn gwmpasu perfformiad ym mhob rhan o'r Cyngor a pherfformiad cyfleuster-benodol a chynnwys y canlynol:<br>• gwariant cyfalaf a refeniw;<br>• incwm;<br>• 'cymhorthdal' y Cyngor;<br>• ansawdd cyfleusterau a'r gwasanaeth a ddarperir;<br>• boddhad cwsmeriaid;<br>• llwyddiant mentrau 'masnachol newydd';<br>• data defnydd – nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau/ cyfleusterau, pryd y cawsant eu defnyddio, ac ati; ac<br>• effaith hamdden o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau ym maes iechyd y cyhoedd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A4 | Gwella trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol mewn perthynas â gwasanaethau hamdden drwy wneud y canlynol:<br>• cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i'r pwyllgor(au) craffu;<br>• rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i aelodau etholedig er mwyn helpu i sicrhau y gwneir penderfyniadau cadarn;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill; a<br>• defnyddio canfyddiadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol i nodi cyfleoedd i wella gwasanaethau. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru